IS-BWYLLGOR DIOGELU'R CYHOEDD

DYDD MERCHER, 26 GORFFENNAF 2023

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd Michael (Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Kaaba a/ac Driscoll |

3 : DATGAN BUDDIANNAU

Dim wedi'i dderbyn.

4 : GWAHARDD Y CYHOEDD

Mae'r eitem ganlynol yn gyfrinachol ac wedi'i heithrio rhag cael ei chyhoeddi gan ei bod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig o'r disgrifiad a geir ym mharagraff 14 Rhan 4 a pharagraff 21 Rhan 5 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972. Gall y cyhoedd gael eu gwahardd o'r cyfarfod ar gais y Pwyllgor yn unol ag Adran 100A(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972 yn ystod trafodaethau ar yr eitem hon.

5 : MATERION CERBYD HACNI/HURIO PREIFAT

PENDERFYNWYD - Y dylid ymdrin â'r materion canlynol fel y nodir:

(1) Achos 1

Gofynnwyd i'r Is-bwyllgor ystyried cwyn a dderbyniwyd gan aelod o'r cyhoedd bod gyrrwr cerbyd hacni wedi siarad ac ymddwyn yn amhriodol i aelod o'r cyhoedd a'i mab pan oeddent yn ei gerbyd. Dywedodd yr achwynydd fod y gyrrwr wedi darllen a chadw'r papur a oedd â'i gwybodaeth bersonol arno, yna dywedodd wrthi i beidio â ffonio Dragon ond i'w ffonio ar ei rif ef yn lle, yna rhoddodd gerdyn iddi gyda'i rif ffôn symudol personol a'i enw arno.

Dywedodd y gyrrwr ei fod wedi mynd â'r papur i wirio'r cyfeiriad, nad oedd yn ymwybodol o fanylion y cwsmer a'r cyfan roedd yn ei wneud oedd bod yn gwrtais trwy sgwrsio. Ychwanegodd fod y cerdyn busnes gyda'i enw a'i rif arno ymhlith y cardiau eraill trwy gamgymeriad, roedd ei ferch wedi ysgrifennu ar rai o'i hen gardiau, ac fe roddodd yr un yma trwy gamgymeriad.

Siaradodd yr achwynydd gerbron yr Is-bwyllgor ac ailadroddodd ei chwyn, fel yr amlinellwyd yn y papurau. Ychwanegodd, pan ddychwelodd i'w chyfeiriad a sôn am y sgwrs gyda'r gyrrwr i'w ffrind, iddi gael cyngor i gwyno.

Dywedodd cynrychiolydd y gyrrwr na fyddai'r gyrrwr wedi gwybod manylion penodol yr archeb a'r ffaith bod y cwsmer yn agored i niwed. Byddai dim ond wedi cael gwybod am y lleoliad casglu a gollwng gan y gweithredwr.

Cadarnhaodd y gyrrwr fod ganddo record lân, a dywedodd hyn fod hyn wedi bod yn gamddealltwriaeth gwirioneddol yr ymddiheurodd amdano.

PENDERFYNWYD – Bod y gyrrwr yn derbyn rhybudd ysgrifenedig a dweud wrtho i fod yn ofalus yn y dyfodol o ran sgyrsiau mae'n eu cael gyda chwsmeriaid yn seiliedig ar eu sefyllfa/amgylchiadau.

(2) Cais 2

Gofynnwyd i'r Is-bwyllgor ystyried cwyn a dderbyniwyd gan yrrwr cerbyd hacni bod gyrrwr arall wedi dangos ymddygiad ymosodol iddo gan gynnwys gweiddi, rhegi a bygythiadau i'w anafu a'i ddifrodi. Mae'r gyrrwr hefyd wedi'i gyhuddo o geisio taro gyrrwr arall gyda'i ben tra'n ceisio cael cwsmeriaid yn safle tacsis Lôn y Felin.

Cafodd yr Is-bwyllgor sylwadau gan y gyrrwr.

Dywedodd y gyrrwr ei fod yn aros yn y safle tacsis ar Lôn y Felin a'i fod yn agos i flaen y ciw. Aeth cwsmeriaid i'r car o'i flaen ac wedyn iddo fe, gan ofyn ai dyma'r car yr oeddent wedi'i archebu, dywedodd nad ei gar ef oedd y car hwnnw. Wedyn daeth tacsi arall i'r safle tacsis a gwnaeth y cwsmeriaid fynd i mewn i'r tacsi hwnnw a gadael. Gadawodd y tacsi o'i flaen gyda chwsmer ac wedyn gwnaeth symud ymlaen. Ar ôl hyn gwnaeth gyrrwr y car y tu ôl iddo adael ei gar a chnocio ar ei ffenest, roedd yn ymosodol iawn a gwnaeth ei gyhuddo o wrthod cwsmeriaid a'u rhoi i yrwyr eraill. Dywedodd ei fod wedi ceisio egluro'r hyn a oedd wedi digwydd, ond na fyddai'n gwrando, felly gwnaeth adael ei gar a gwnaethon nhw barhau i ddadlau. Yna aeth yn ôl i'w gar gyda chwsmer a gadael.

Siaradodd yr achwynydd gerbron yr Is-bwyllgor gan ddweud, ar y dyddiad dan sylw, ei fod yn gweithio ar safle tacsis Marriott ar Lôn y Felin, ei fod yn 2il yn y ciw ac roedd y gyrrwr arall yn dewis cwsmeriaid ac yn rhoi cwsmeriaid i yrwyr eraill a oedd yn gyd-droseddwyr iddo ac nid y cyd-yrwyr tacsis eraill. Gwnaeth adael ei gerbyd a siarad â'r gyrrwr a'i wynebu am ei weithredoedd a dywedodd wrtho ei fod wedi bod yn aros i gael cwsmeriaid am bron i 40/50 munud. Gwnaeth ei rybuddio pe bai'n parhau i wneud hynny, byddai'n cael ei riportio i drwyddedu. Dywedodd yr achwynydd fod y gyrrwr arall wedyn yn ymosodol iawn a gwnaeth geisio ei daro â'i ben a bu'n rhaid i yrwyr eraill ymyrryd i'w atal rhag arwain at ymddygiad

ymosodol pellach. Ychwanegodd fod y gyrrwr arall hefyd wedi gwneud bygythiadau gan ddweud ei fod yn mynd i "falu fy ngherbyd", Cafodd y digwyddiadau hyn eu hadrodd i 101 a dywedodd yr achwynydd wrth yr Is-bwyllgor na wnaeth weithio am ychydig ddyddiau rhag ofn iddo ei weld.

Dywedodd cynrychiolydd y gyrrwr pe na bai'r achwynydd wedi gadael ei gerbyd ac wedi ymddwyn yn ymosodol tuag at y gyrrwr heb unrhyw dystiolaeth o'r hyn oedd wedi digwydd, ni fyddent yn eistedd yno heddiw.

Ymatebodd y gyrrwr a'r achwynydd i gwestiynau gan Aelodau'r Is-bwyllgor a gohiriwyd y cyfarfod ar gyfer y penderfyniad.

PENDERFYNWYD - Bod y gyrrwr yn derbyn rhybudd ysgrifenedig a dweud wrtho i fod yn ymwybodol o'i ymddygiad yn y dyfodol.

(3) Cais 3 (Yn absenoldeb)

Gofynnwyd i'r Is-bwyllgor ystyried a yw gyrrwr yn parhau'n berson addas a phriodol i ddal Trwydded Gyrrwr Hurio Preifat o ystyried ei fod wedi cael ei garcharu am 4 blynedd ac 8 mis yn dilyn euogfarn o ladrata.

PENDERFYNWYD - Bod y Drwydded Gyrrwr Cerbyd Hacni/Hurio Preifat yn cael ei thynnu'n ôl.

(4) Cais 4

Gofynnwyd i'r Is-bwyllgor ystyried a yw gyrrwr yn parhau'n berson addas a phriodol i ddal Trwydded Gyrrwr Hurio Preifat o ystyried ei fod wedi cael ei farnu'n euog o 2 drosedd yrru gan arwain at 9 pwynt cosb. Methodd y gyrrwr â hysbysu'r awdurdod ar adeg derbyn y pwyntiau gan aros yn hytrach tan y cais adnewyddu a'u datgan ar y ffurflen gais.

Cafodd yr Is-bwyllgor sylwadau gan y gyrrwr. Dywedodd y gyrrwr ei fod yn cael problemau teuluol yn 2021 ac roedd ei wraig yn dioddef o iselder. Treuliodd naw mis i ffwrdd o gartref y teulu ac yn ystod y cyfnod hwnnw nid oedd ei wraig wedi trosglwyddo ei bost. Ychwanegodd fod ei ferch wedi anfon llun o lythyr gan y DVLA tua 7 neu 8 mis wedi iddo adael, ac ar ôl hynny gwnaeth eu ffonio, ond roedd yr achos eisoes wedi'i anfon i'r llys a dywedwyd wrtho am aros.

Bu dwy drosedd gamera a dywedodd y gyrrwr nad oedd yn gwybod amdanynt na'r pwyntiau. Ychwanegodd ei fod wedi dal trwydded lân rhwng 2007 a 2021. Yn ystod Covid roedd wedi dechrau danfon bwyd tecawê, a dyna pryd ddigwyddodd y

troseddau.

Gofynnodd cynrychiolydd y gyrrwr i'r Is-bwyllgor ystyried record lân flaenorol y gyrrwr a'r ffaith ei fod bellach yn ôl gyda'i deulu a bod ganddo bump o blant i'w cefnogi.

PENDERFYNWYD – Bod y gyrrwr yn derbyn rhybudd ysgrifenedig, yn cael ei atgoffa o'i ddyletswyddau fel gyrrwr tacsi, ac yn cael cyfarwyddyd i gwblhau cwrs BTEC perthnasol o fewn tri mis i ymgyfarwyddo â'r safonau a ddisgwylir ganddo.

Daeth y cyfarfod i ben am 12.20 pm.